Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol

## Ysgol Uwchradd Llanfyllin
## Llanfyllin
## Powys
## SY22 5BJ

## Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi gwneud cynnydd digonol yn gysylltiedig â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

Mae llawer o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn parau. Mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth ac yn ymateb yn dda i gwestiynau eu hathrawon. Maent yn trafod eu syniadau yn aeddfed gyda'u cymheiriaid. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darparu atebion rhesymegol, tra ystyriol i gwestiynau. Fodd bynnag, mae ymatebion ychydig o ddisgyblion yn rhy fyr. Mewn ychydig wersi, mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhy oddefol neu maent yn amharod i gyfrannu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar goedd gyda hyder, mynegiant da a goslef. Mae llawer ohonynt yn defnyddio strategaethau darllen yn effeithiol i ddeall ystyr geiriau anghyfarwydd neu i dynnu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Mae llawer ohonynt yn dadansoddi ac yn casglu haenau o ystyr yn briodol. Mae eu cymhwysedd yn y medr hwn yn gwella gydag amser, er enghraifft wrth drafod sut mae Michael Murpurgo yn gwneud i'r darllenwr deimlo empathi tuag at ei arwr yn Private Peaceful. Mae ychydig ohonynt yn archwilio iaith yn hyderus ac yn fanwl.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n faith iawn at amrywiaeth eang o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn welliant nodedig o gymharu â safon y gwaith ysgrifennu adeg yr arolygiad craidd. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn ysgrifennu'n gymwys i werthuso buddion ynni adnewyddadwy ac, mewn technoleg, maent yn ysgrifennu'n effeithiol i drafod faint mae roboteg yn tarfu yn y gymdeithas fodern. Mae llawer o ddisgyblion yn strwythuro'u hysgrifennu'n briodol ac yn esbonio'u syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa addas. Mae ysgrifennu ychydig ddisgyblion wedi'i saernïo'n dda ac mae'n llwyddo i ddal diddordeb y darllenwr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud gwallau technegol mynych yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawysgrifen lleiafrif o fechgyn yn benodol yn wan.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda mewn ystod ehangach o gyd-destunau addas nag yr oeddent adeg yr arolygiad craidd, er enghraifft mewn gwyddoniaeth wrth gyfrifo dwysedd a chyflymder, ac mewn daearyddiaeth wrth ddehongli siartiau a graffiau am barciau cenedlaethol. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifyddeg pen cywir. Maent yn datrys hafaliadau'n dda ac mae gan y disgyblion mwy abl fedrau cadarn wrth drin data.

Mae disgyblion dwyieithog yn gweithio'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg ac maent yn sgwrsio â'i gilydd yn naturiol yn y Gymraeg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Yn 2018, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bellach, mae'n cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu am y tro cyntaf yn y pedair blynedd diwethaf. Ar ôl gwella'n dda yn 2017, fe wnaeth perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ddirywio ychydig yn 2018, ond mae'n parhau i gyd-fynd â'r sgôr mewn ysgolion tebyg, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A*-A neu gyfwerth wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn ers yr arolygiad craidd ac mae ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn 2018.

Er bod perfformiad yn Saesneg wedi dirywio fymryn yn 2018, mae wedi gwella ar y cyfan ers yr arolygiad craidd ac mae'n cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg. Yn 2018, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn debyg i'r perfformiad adeg yr arolygiad craidd. Mae wedi gwella'n dda ar ôl dirywio'n sylweddol yn 2016.

Er yr arferai perfformiad bechgyn gyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg, mae eu perfformiad yn 2018 islaw neu ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg, mewn llawer o ddangosyddion. Yn y mwyafrif o ddangosyddion, mae merched wedi perfformio'n well na merched mewn ysgolion tebyg yn 2018.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

### A2. Gwella'r cydlyniad a'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer cydlynu'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd yn sylweddol. Yng ngrŵp gwella'r ysgol, mae cydlynwyr wedi cefnogi rheolwyr canol yn dda i gymhwyso llinynnau'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol yn eu cynlluniau gwaith. Maent wedi cefnogi staff yn effeithiol i roi amrywiaeth o dasgau defnyddiol ar waith i ddatblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae staff pwnc wedi cael hyfforddiant a chymorth gwerthfawr ar feysydd penodol, fel datblygu medrau ysgrifennu estynedig, strategaethau darllen a medrau rhifedd y disgyblion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n dda ar ddatblygu strategaethau priodol i wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd buddiol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig a datblygu'u darllen yn briodol. Yn ogystal, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws pynciau.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn briodol. Mae'r disgyblion hyn yn elwa o raglenni ymyrraeth sy'n bodloni'u hanghenion penodol ac mae'r ysgol yn monitro'r rhaglenni hyn yn dda. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

## A3. Gwella trefniadau amserlennu i sicrhau bod ansawdd y profiadau dysgu yn gyson ar gyfer pob disgybl

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r pryderon ynghylch trefniadau amserlennu a chysondeb y profiadau dysgu i'r holl ddisgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gostyngiad yn nifer y dosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu gan fwy nag un athro neu gan athro nad yw'n arbenigo yn y pwnc. Mae staff yn cael cymorth priodol i addysgu y tu hwnt i'w harbenigedd.

Yng nghyfnod allweddol 4, cryfhawyd trefniadau'r cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol. Yn ogystal, aethpwyd i'r afael yn briodol â diffygion a nodwyd yn yr arolygiad craidd o ran y trefniadau ar gyfer cyflwyno cyrsiau TGAU dewisol disgyblion.

## A4. Gwella safonau addysgu ac asesu

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi amrywiaeth eang o weithgareddau a phrosesau sicrhau ansawdd defnyddiol ar waith i wella ansawdd addysgu ac asesu. Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith fuddiol ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'r cynnydd a wnânt mewn gwersi.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gwaith cadarn gyda disgyblion. Maent wedi sefydlu arferion clir ar gyfer yr ystafell ddosbarth i sicrhau bod eu gwersi yn dechrau'n effeithlon. Mae llawer o athrawon yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau defnyddiol wedi'u cyd-gysylltu'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn dda. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion drafod eu syniadau gyda'u cymheiriaid a digon o amser i gwblhau tasgau yn annibynnol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn holi disgyblion yn briodol i wirio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn yr ychydig wersi lle mae addysgu yn arbennig o gryf, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn a defnyddiant gwestiynau agored yn fedrus i brocio dealltwriaeth disgyblion a herio'u meddwl ymhellach. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio tasgau'n effeithiol i sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu'r disgyblion.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ddigon da. Mae diffygion yn y gwersi hyn yn cynnwys gweithgareddau nad ydynt yn adeiladu'n gynyddol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddysgu'r disgyblion. Mewn gwersi eraill, nid yw athrawon yn ennyn diddordeb nac yn hoelio sylw disgyblion yn llwyddiannus. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw nad ydynt yn rhoi digon o amser i ddisgyblion archwilio'r gwaith yn annibynnol, neu mae tasgau'n ailadroddus ac nid ydynt yn herio disgyblion ddigon. Mewn ychydig wersi, nid yw addysgu'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon da, yn enwedig yn y mwyaf abl.

Mae llawer o athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn effeithiol mewn gwersi ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar lafar. Mae eu hadborth ysgrifenedig yn nodi'n fuddiol y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yng ngwaith disgyblion. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn briodol i'r adborth hwn. Fodd bynnag, mae ansawdd sylwadau ysgrifenedig athrawon yn parhau i amrywio. Nid yw lleiafrif ohonynt yn

esbonio sut i wella yn ddigon clir. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Nid yw ychydig athrawon yn talu digon o sylw i gywirdeb technegol gwaith ysgrifenedig y disgyblion.

## A5. Gwella ansawdd a chysondeb hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a monitro cynnydd

Mae ansawdd hunanwerthuso'r ysgol gyfan yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i'r pennaeth a'r tîm arwain o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Ers yr arolygiad craidd, mae gwelliannau mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn gwersi ac ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion.

Bellach, mae'r uwch dîm arwain yn rhoi cymorth cadarn i arweinwyr canol i'w helpu i wella'u harfer wrth hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae uwch arweinwyr yn cynnal mwyafrif y gweithgareddau sicrhau ansawdd, fel arsylwadau gwersi a theithiau dysgu, ac yn rhoi adborth cynhwysfawr i arweinwyr canol. Mae arweinwyr canol yn craffu ar waith disgyblion yn briodol yn unol â chalendr sicrhau ansawdd yr ysgol, ond nid ydynt yn cymryd rhan yn ffurfiol, fel mater o drefn, mewn arsylwi gwersi y tu hwnt i reoli perfformiad. Er bod ansawdd y rhain yn amrywio, mae'r ysgol wedi sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn ac ar draws adrannau.

Ar y cyfan, mae ansawdd hunanwerthuso adrannol yn fwy cyson nag yr oedd adeg yr arolygiad craidd ac mae'n cysylltu'n glir â hunanwerthuso'r ysgol gyfan. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn dadansoddi deilliannau yn effeithiol, gan lunio cymariaethau addas a dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad. Defnyddiant dystiolaeth o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau wrth werthuso cynnydd disgyblion a'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth fwy cywir o ansawdd dysgu ac addysgu yn yr adrannau hyn. Mae rôl arweinwyr bugeiliol mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi gwella'n sylweddol ac maent yn defnyddio data yn dda i ddadansoddi perfformiad a phresenoldeb blwyddyn gyfan.

Mae cynllunio gwelliant meysydd yn cysylltu'n glir â materion a amlygwyd trwy weithgareddau hunanwerthuso a chyda blaenoriaethau'r ysgol gyfan. Ar y cyfan, mae meini prawf llwyddiant yn benodol ac yn fesuradwy ac mae trefniadau addas ar gyfer monitro cynnydd.

## A6. Cynyddu atebolrwydd ar gyfer arweinwyr ar bob lefel ar gyfer gwella safonau ac ansawdd yr addysgu

Ers yr arolygiad craidd, bu newidiadau sylweddol yn yr uwch arweinyddiaeth. Mae penodi pennaeth newydd ym Medi 2017 ac ychwanegu dau bennaeth cynorthwyol at yr uwch dîm arwain, wedi cryfhau gallu'r ysgol i wneud gwelliannau. Caiff rolau eu diffinio a'u cyfleu'n glir, ac mae cydbwysedd da o ran cyfrifoldebau. Mae camau gweithredu'r uwch dîm arwain yn cael effaith ar wella ansawdd yr addysgu a safonau medrau disgyblion.

Mae cyfarfodydd uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n briodol ar bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol, yn ogystal ag ar ddeilliannau hunanwerthuso, adolygiadau cynllunio gwelliant a chyfarfodydd rheolwyr llinell. Mae llinellau atebolrwydd yn glir a

chynhelir cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag arweinwyr canol sy'n canolbwyntio'n dda ar safonau. Mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn fwy trylwyr nag ar adeg yr arolygiad craidd.

Mae'r ysgol wedi cryfhau'n briodol ei threfniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion bob amser yn cynnwys targedau digon mesuradwy yn gysylltiedig â dysgu ac addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn dwyn uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i gyfrif yn addas. Mae llywodraethwyr wedi cryfhau eu cysylltiadau â meysydd dysgu ac maent yn ymweld â'r ysgol yn aml i fonitro safonau a'r ddarpariaeth yn briodol. Mae hyn wedi cynyddu'u gwybodaeth am waith yr ysgol yn fuddiol.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**